

# Rhan A – Rôl a chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrif

Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r  
Undeb Ewropeaidd: canllawiau i  
Swyddogion Cyfrif

Cyhoeddwyd Ionawr 2016 (diweddarwyd diwethaf Mai 2016)

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol; defnyddir 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer y bleidlais hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Diweddariadau i'r ddogfen hon

<b>Diweddarwyd</b>	<b>Disgrifiad o'r newid</b>	<b>Rhif paragraff</b>
Mai 2016	Wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth derfynol (gan gynnwys cadarnhau dyddiad y bleidlais) a chyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif a gadarnhawyd, ac i gynnwys cyfeiriadau deddfwriaethol	

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad i'r canllawiau hyn .....</b>	<b>1</b>
	Cefndir	1
	Diben	1
	Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn	2
<b>2</b>	<b>Refferendwm yr UE.....</b>	<b>4</b>
	Amseru	4
	Maint	4
	Cofrestru etholwyr	5
<b>3</b>	<b>Strwythur rheoli ar gyfer y refferendwm.....</b>	<b>7</b>
	Rôl y Prif Swyddog Cyfrif	7
	Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol	8
	Swyddogion Cyfrif	8
	Rôl y Comisiwn Etholiadol	11
	Atodiad A – rhestr o gyfarwyddiadau	13

# 1 Cyflwyniad i'r canllawiau hyn

## Cefndir

1.1 Mae Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) erbyn diwedd 2017. Mae Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Dyddiad y Refferendwm ac ati) 2016 yn nodi mai dyddiad y refferendwm yw 23 Mehefin 2016. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [amserlen](#) yn cynnwys y dyddiadau cau statudol ar gyfer y refferendwm.

1.2 Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol yw'r Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi penodi Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol ym Mhrydain Fawr.

1.3 Y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol ar gyfer pob awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr yw Swyddog Cyfrif yr ardal honno. Y Prif Swyddog Etholiadol yw'r Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon.

1.4 Mae gan y Prif Swyddog Cyfrif bŵer i gyfarwyddo Swyddogion Cyfrif ynglŷn â chyflawni eu swyddogaethau a'u paratodau ar gyfer y refferendwm. Mae gan Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol bŵer i gyfarwyddo Swyddogion Cyfrif yn eu rhanbarth etholiadol hefyd ond dim ond lle mae'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol wedi eu cyfarwyddo neu wedi'u hawdurdodi i wneud hynny y gellir ei arfer.

## Diben

1.5 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyhoeddi'r canllawiau hyn i gynorthwyo Prif Swyddog Cyfrif yn ystod refferendwm yr UE gydag arfer a gweithdrefn cynnal y bleidlais.

1.6 Cafodd y canllawiau eu datblygu drwy ymgynghori'n fanwl ag aelodau o Fwrdd Rheoli Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd<sup>1</sup> a Grŵp Cyflawni Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Sefydlwyd Bwrdd Rheoli Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd i helpu'r Prif Swyddog Cyfrif i reoli'r broses o gynnal refferendwm yr UE yn effeithiol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan y Prif Swyddog Cyfrif ac mae ei aelodaeth bresennol yn cynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif, y Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol dros bob rhanbarth etholiadol ym Mhrydain Fawr a Swyddog Cyfrif Gogledd Iwerddon.

<sup>2</sup> Mae Grŵp Cyflawni Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, y caiff ei aelodau eu henwebu gan yr 11 Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon ac sy'n eu cynrychioli, yn gweithio ochr yn ochr â Bwrdd Rheoli Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n canolbwyntio ar yr agweddau ymarferol ar gynllunio ar gyfer y refferendwm a'i gynnal.

1.7 Lluniwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd) a dylid eu darllen yn unol â hi:

- Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Dyddiad y Refferendwm ac ati) 2016
- Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Gogledd Iwerddon) 2008
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol) 2016

1.8 Mae'n ofynnol hefyd i Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus a geir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

1.9 Hefyd, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a'r Swyddogion Cyfrif ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu'n gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

1.10 Rhennir y canllawiau'n chwe maes:

- Rhan A – Rolau a chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrif
- [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#)
- [Rhan C – Gweinyddu'r refferendwm](#)
- [Rhan D – Pleidleisio absennol ym Mhrydain Fawr a Rhan D - Pleidleisio absennol yng Ngogledd Iwerddon](#)
- [Rhan E – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#)
- [Rhan F – Ar ôl datgan y canlyniad](#)

1.11 Mae pob un o'r rhannau hyn yn cwmpasu:

- yr hyn y mae'n ofynnol i chi a'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ei wneud yn ôl y gyfraith a'r hyn y mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi'ch cyfarwyddo i'w wneud ('rhaid')
- arfer a argymhellir er mwyn eich helpu i ddeall eich dyletswyddau a'u cyflawni

1.12 Drwy'r canllawiau cyfan hyn defnyddir 'chi' i gyfeirio at y Swyddog Cyfrif. Er ein bod yn cydnabod y gwahaniaethau a geir yn y strwythur ar gyfer cynnal y bleidlais yng Ngogledd Iwerddon, at ddibenion y canllawiau hyn, dylid cymryd bod cyfeiriadau at Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn cynnwys Swyddog Cyfrif Gogledd Iwerddon.

1.13 Ategir y canllawiau hyn gan adnoddau sydd ar gael drwy ddolenni a geir yn y canllawiau.

1.14 Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r canllawiau neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gweinyddu'r refferendwm, mae timau'r Comisiwn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban a ledled Lloegr ar gael i roi cymorth bob amser. Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori y tu allan i oriau er mwyn ymdrin ag ymholiadau brys ynglŷn â gweinyddu etholiadol yn y cyfnod hyd at y refferendwm ac yn union ar ôl iddo gael ei gynnal. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau drwy Fwletin y Comisiwn ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

## 2 Refferendwm yr UE

2.1 Bydd refferendwm yr UE yn ddigwyddiad pwysig, a fydd yn cyflwyno ei heriau penodol ei hun. Bydd diddordeb mawr yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yng nghanlyniad y bleidlais, sy'n golygu y bydd eich gwaith i gynnal refferendwm yn drefnus yn cael cryn sylw – ymhlith pleidleiswyr, ymgyrchwyr a'r cyfryngau, gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Mae'r bennod hon yn ceisio amlygu rhai o'r agweddau penodol ar gyd-destun sy'n berthnasol i'r bleidlais hon. Dylech sicrhau eu bod wrth wraidd pob agwedd ar eich gwaith cynllunio.

### Amseru

2.3 Gan fod y refferendwm yn cael ei gynnal saith wythnos ar ôl etholiadau Mai 2016 a drefnwyd, bydd y gwaith o gynllunio'r ddau ddigwyddiad yn anochel yn gorgyffwrdd, gyda'r fantais o baratoi ar gyfer un yn cefnogi'r paratodau ar gyfer y llall. Er nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth er mwyn cyfuno'r bleidlais yn y refferendwm â'r bleidlais mewn unrhyw ddigwyddiad etholiadol arall, mae'n bosibl o hyd y gallai isetholiad gael ei gynnal ar yr un diwrnod â'r refferendwm. Os felly, byddai'n rhaid cynnal y pleidleisiau ar yr un pryd, a fyddai'n golygu (er enghraifft) y byddai angen gorsafoedd pleidleisio gwahanol ar gyfer pob etholiad. Felly mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn argymhell, lle y bo'n bosibl, na ddylid cynnal pleidleisiau eraill ar yr un diwrnod â'r refferendwm. Os dewch yn ymwybodol o'r potensial i bleidlais arall gael ei chynnal yn eich ardal ar yr un diwrnod neu os ydych dan bwysau i gynnal unrhyw etholiadau eraill ar 23 Mehefin, cysylltwch â'ch tîm Comisiwn Lleol yn y lle cyntaf.

### Maint

2.4 Bydd angen i sawl agwedd ar gynllunio'r refferendwm adlewyrchu tybiaethau o ran y niferoedd tebygol a wnaiff bleidleisio. Bydd llunio'r fath dybiaethau ar gam cynnar o'r gwaith cynllunio yn allweddol gan mai prin y gellir newid cynlluniau ar gam hwyrach yn y broses.

2.5 Mae heriau bob amser yn gysylltiedig â datblygu tybiaethau cynllunio o'r fath. Yn aml, bydd yn anodd rhagweld, cyn cyfnod y refferendwm, y lefelau tebygol o ymgysylltu yn y bleidlais. O gofio'r potensial am gryn ymgysylltu a diddordeb yn refferendwm yr UE, dylai'r tybiaethau sy'n sail i'ch gwaith cynllunio ystyried y posibilrwydd y bydd nifer fawr yn pleidleisio, gan ddefnyddio refferendwm yr Alban fel sail.

2.6 Wrth i'r bleidlais nesáu, bydd y cyd-destun yn parhau i newid wrth i'r ymgyrchoedd ddatblygu. Bydd angen i chi fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau yn eich ardal bleidleisio ac yn fwy cyffredinol a allai gael effaith ar gynnal y bleidlais yn effeithiol, a bydd hyn yn cynnwys cael



cynlluniau wrth gefn cadarn i'w rhoi ar waith os bydd angen. Er enghraifft, os darlledir dadleuon ymgyrchwyr ar y teledu, gallai'r rhain arwain at gynnydd hwyr yn nifer y ceisiadau cofrestru a phleidleisio absennol, yn ogystal â chael effaith ar y niferoedd a fydd yn pleidleisio ac maent yn debygol o newid y patrwm traddodiadol pan ddychwelir pleidleisiau post wedi'u cwblhau.

2.7 Bydd cynnydd yn y nifer sy'n pleidleisio yn golygu mwy o bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, ac mae'n hanfodol bod darpariaeth briodol ar gyfer hynny, gyda digon o orsafoedd a staff i ymdrin â nifer yr etholwyr a neilltuwyd iddynt. Er bod y ddeddfwriaeth yn sicrhau y bydd unrhyw bleidleisiwr sydd mewn ciw yn ei orsaf pleidleisio am 10pm yn gallu bwrw pleidlais, mae angen o hyd sicrhau nad yw pleidleiswyr yn wynebu oedi gormodol cyn pleidleisio a'u bod yn gallu cael gwasanaeth o safon. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif a'r Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol oll yn awyddus i sicrhau y gellir staffio gorsafoedd pleidleisio yn briodol fel y gall pob pleidleisiwr pleidleisio'n hawdd a heb oedi gormodol, yn enwedig o ystyried y posibilrwydd y bydd nifer fawr yn pleidleisio a chan gydnabod hefyd y gallai fod nifer sylweddol o bleidleiswyr nad ydynt wedi pleidleisio o'r blaen neu nad ydynt wedi pleidleisio ers amser maith ac felly efallai y bydd angen mwy o gymorth arnynt i allu bwrw eu pleidlais, a'r amcan hwn sy'n sail i gyfarwyddyd y Prif Swyddog Cyfrif ynglŷn â gorsafoedd pleidleisio.

2.8 Dylech fod yn barod i uniondeb y refferendwm fod yn destun craffu. Bydd sylw'r cyfryngau ar y broses gyfan o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau hefyd yn bwysig, a bydd disgwyliad ymhlith ymgyrchwyr, pleidiau a'r cyfryngau y caiff y canlyniad ei ddatgan mor fuan â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Er eu bod yn cydnabod bod yna heriau penodol, cred y Prif Swyddog Cyfrif a'r Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ei bod yn bosibl i drefniadau gael eu rhoi ar waith i gyfrif y pleidleisiau dros nos mewn ffordd effeithlon, tryloyw a chywir – fel y digwyddodd yn refferendwm annibyniaeth yr Alban ym mis Medi 2014 – ac mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi nodi bod yn rhaid i'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau ddechrau am 10pm yn y DU ac 11pm yn Gibraltar.

2.9 Efallai y bydd nifer sylweddol o ymgeiswyr llai profiadol sy'n anghyfarwydd ag arferion a phrosesau etholiad neu refferendwm ac y bydd angen eich cymorth arnynt er mwyn gallu cymryd rhan yn effeithiol.

## Cofrestru etholwyr

2.10 Disgwylir i'r ffocws ar y niferoedd sydd wedi cofrestru ac sydd heb gofrestru barhau.

2.11 Dylai refferendwm yr UE gynnig ffordd gadarn o ennyn diddordeb mewn gweithgarwch ymgysylltu a'r cyhoedd yn lleol a chreu cyfleoedd i chi a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ennyn diddordeb trigolion lleol yn y broses ddemocrataidd a rhoi hwb i lefelau cofrestru ymhlith grwpiau sy'n tangofrestru. Gallai cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid lleol a all gyrraedd pleidleiswyr mewn grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn eich ardal fod yn rhan werthfawr o'ch gwaith ymgysylltu lleol a dylid manteisio ar hynny.

2.12 Dylech baratoi ar gyfer y posibilrwydd y bydd nifer fawr o geisiadau cofrestru yn agos at y dyddiad cau ar gyfer y refferendwm a chynnwys hynny yn eich cynlluniau, gan adlewyrchu gwersi a ddysgwyd o brofiad pleidleisiau blaenorol. Mae effaith ceisiadau o'r fath a chwestiynau cysylltiedig gan drigolion am eu statws cofrestru nid yn unig yn berthnasol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ond bydd i hynny hefyd oblygiadau o ran gweinyddu'r bleidlais a dylai eich cynlluniau sicrhau eich bod yn gallu ymateb yn effeithiol.

# 3 Strwythur rheoli ar gyfer y refferendwm

3.1 Mae gan refferendwm yr UE fframwaith rheoli gwahanol i ddiwyddiadau etholiadol eraill, sy'n adlewyrchu'r ffaith mai un bleidlais ydyw gydag un canlyniad i'r DU gyfan a Gibraltar.



Mae disgrifiadau manwl o rôl y Prif Swyddog Cyfrif y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif ar gael ar wefan y [Comisiwn](#).

## Rôl y Prif Swyddog Cyfrif

3.2 Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, sef Jenny Watson, yw'r Prif Swyddog Cyfrif sy'n gyfrifol am reoli refferendwm yr UE. Gall y Prif Swyddog Cyfrif awdurdodi Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif i ymarfer unrhyw rai o'i swyddogaethau, gan gynnwys y pŵer i gyfarwyddo Swyddogion Cyfrif. Mae Andrew Scallan CBE, y Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau yn y Comisiwn, wedi cael ei benodi'n Ddirprwy Brif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm hwn.

3.3 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd i'w helpu i reoli'r broses o gynnal refferendwm yr UE yn effeithiol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan y Prif Swyddog Cyfrif ac mae ei aelodaeth bresennol yn cynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif, y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol dros bob rhanbarth etholiadol ym Mhrydain Fawr a Swyddog Cyfrif Gogledd Iwerddon.

3.4 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gyfrifol yn bersonol am ardystio canlyniad cyffredinol y refferendwm. Bydd un canlyniad i'r DU gyfan, wedi'i gyfuno o'r holl gyfansymiau a roddir yn lleol gan Swyddogion Cyfrif unigol.

3.5 Mae gan y Prif Swyddog Cyfrif y pŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Cyfrif sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau yn y refferendwm, gan gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyfrif gymryd camau penodol i baratoi neu roi unrhyw wybodaeth sydd ganddynt neu y mae ganddynt hawl i'w chael.<sup>i</sup>

3.6 Ar ôl cyfnod o ymgynghori, ym mis Tachwedd 2015 rhoddodd y Prif Swyddog Cyfrif wybod am y ffordd y mae'n bwriadu rheoli'r refferendwm a'i chyfarwyddiadau i Swyddogion Cyfrif a'u staff. Mae'r cyfarwyddiadau hyn, a ddatblygwyd drwy ymgynghori'n fanwl â'r Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol wedi'u hymgorffori drwy'r canllawiau cyfan, sy'n cynnwys rhestr gyflawn o'r cyfarwyddiadau yn Atodiad A - rhestr o gyfarwyddiadau

3.7 **Atodiad A** – rhestr o gyfarwyddiadau.

3.8 Mewn unrhyw achos lle na all Swyddog Cyfrif gydymffurfio'n llawn â chyfarwyddyd neu lle y cred fod ei (h)amgylchiadau lleol penodol yn golygu na ddylai fod yn ofynnol iddo/iddi gydymffurfio â chyfarwyddyd, gall wneud cais am eithrio. Os credwch na fyddwch efallai yn gallu cydymffurfio â chyfarwyddyd, dylech gysylltu â'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol cyn gynted â phosibl.

3.9 Ar hyn o bryd nid yw'r Prif Swyddog Cyfrif yn bwriadu rhoi unrhyw gyfarwyddiadau eraill yn ychwanegol at y rhai y mae eisoes wedi'u rhoi. Fodd bynnag, pe bai'n ystyried bod angen rhoi unrhyw gyfarwyddiadau eraill, dim ond ar ôl ymgynghori â Bwrdd Rheoli Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a Grŵp Cyflawni Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd y byddai hyn yn cael ei wneud.

## Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol

3.10 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi penodi Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol ym Mhrydain Fawr.

3.11 Mae'r Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn gyfrifol am gydgyssylltu'r gwaith o gynllunio a gweinyddu'r bleidlais yn eu rhanbarth etholiadol ac am reoli'r broses o goladu'r cyfansymiau lleol i roi un cyfanswm i'r rhanbarth etholiadol, a fydd yn cael ei fwydo i mewn i ganlyniad y DU gyfan.

3.12 Gall y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ond arfer pŵer i gyfarwyddo Swyddogion Cyfrif yn eu rhanbarth etholiadol lle mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi'u cyfarwyddo neu wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

## Swyddogion Cyfrif<sup>ii</sup>

3.13 Ym Mhrydain Fawr, mae penodiad yn Swyddog Cyfrif yn deillio'n awtomatig o'ch penodiad yn Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol. At ddibenion y refferendwm ym Mhrydain Fawr, gelwir yr ardal awdurdod lleol yn ardal bleidleisio.

3.14 Yng Ngogledd Iwerddon, y Swyddog Cyfrif dros ardal bleidleisio sengl Gogledd Iwerddon yw Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon.

## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

3.15 Rydych yn chwarae rhan ganolog yn y broses ddemocrataidd. Eich rôl yw sicrhau y caiff y refferendwm ei weinyddu'n effeithiol yn eich ardal bleidleisio ac, o ganlyniad, y bydd profiad pleidleiswyr ac ymgyrchwyr yn un cadarnhaol. Ar gam cynnar, dylech amlinellu'r hyn rydych am ei gyflawni a sut beth fyddai llwyddiant i chi.

3.16 Fel Swyddog Cyfrif, chi sy'n bersonol gyfrifol am gynnal y refferendwm yn eich ardal bleidleisio<sup>iii</sup>, gan gynnwys:

- darpariaeth a chyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- argraffu'r papurau pleidleisio
- penodi staff gorsafoedd pleidleisio
- trefn cynnal yr etholiad
- rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau
- trosglwyddo'r cyfansymiau lleol i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol

3.17 Mae eich dyletswyddau fel Swyddog Cyfrif yn rhai ar wahân i'ch dyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel Swyddog Cyfrif nid ydych yn gyfrifol i'r awdurdod lleol ond rydych yn uniongyrchol atebol i'r llysoedd fel deiliad swydd statudol annibynnol.<sup>iv</sup>

3.18 Mae'n hollbwysig eich bod yn cydweithredu'n agos â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn y rhanbarth etholiadol. Dylai'r cyswllt ddechrau ar gam cynnar er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal refferendwm yn drefnus drwy'r rhanbarth etholiadol cyfan ac, yn y pen draw, drwy'r DU gyfan a Gibraltar.

## Torri dyletswydd swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol

3.19 Er y gallwch benodi un neu fwy o bersonau i gyflawni unrhyw un neu bob un o'ch swyddogaethau fel Swyddog Cyfrif, ni allwch ddirprwyo'ch cyfrifoldeb personol am gyflawni'ch dyletswyddau yn y refferendwm. Ceir rhagor o wybodaeth am benodi dirprwyon yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

3.20 Rydych hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau tordyletswydd swyddogol. Mae hyn yn golygu, os byddwch chi neu'ch dirprwyon penodedig, heb achos rhesymol, yn euog o unrhyw weithred neu anwaith sy'n torri dyletswydd swyddogol byddwch chi (a/neu eich dirprwyon) yn atebol i dalu dirwy ar ôl collfarn ddiannod.<sup>v</sup>

3.21 Mae gennych y pŵer i gymryd y cyfryw gamau ag sy'n briodol yn eich barn chi i unioni gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau'r refferendwm ac nad ydynt yn unol â'r rheolau.<sup>vi</sup>

3.22 Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i chi gywiro gwallau gweithdrefnol rydych chi, fel Swyddog Cyfrif, Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu neu berson sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i chi (neu ddirprwyon unrhyw un o'r rhain) yn eu gwneud.

3.23 Pan fyddwch yn datrys gweithred neu anwaith yn llawn gan ddefnyddio eich pŵer i gywiro gwall gweithdrefnol, ni fyddwch yn euog o dorri dyletswydd swyddogol.<sup>vii</sup> Dylech gofio nad yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i ailgyfrif y pleidleisiau ar ôl i'r cyfansymiau lleol gael eu hardystio.

3.24 Fel Swyddog Cyfrif, rydym yn bersonol atebol am y ffordd y cynhelir y refferendwm yn eich ardal bleidleisio. Dylech fod eisoes wedi rhoi trefniadau ar waith i'ch yswirio rhag unrhyw risgiau a wynebwrth gyflawni'ch dyletswyddau statudol mewn etholiadau. Efallai y bydd yswiriant wedi'i gynnwys yn nhrefniadau yswirio'r awdurdod lleol ei hun, y gellir ei ymestyn i refferenda.

3.25 Mae trefniadau indemniad ar gyfer y refferendwm, sy'n ategu trefniadau yswiriant presennol Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol, ar waith ac wedi bod mewn grym ers 19 Chwefror 2016. Serch hynny, dylech sicrhau bod gennych yswiriant priodol a'i fod yn gyfredol. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd y refferendwm yn cael ei herio ac y gwneir hawliad yn eich erbyn. Efallai y bydd y tîm yn eich awdurdod lleol sy'n ymdrin ag yswiriant yn gallu helpu i bennu pa yswiriant sydd eisoes wedi'i drefnu ac ar gael, a rhoi cyngor ar b'un a ddylid ei ymestyn.

## Eich sgiliau a'ch gwybodaeth

3.26 Dylai fod gennych wybodaeth ddigonol am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu trefn cynnal y refferendwm. Golyga hyn, yn ogystal â dealltwriaeth glir o'ch swyddogaethau statudol penodol, y dylech fod gennych drosolwg o'r hyn sydd yn y ddeddfwriaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae'n effeithio ar weinyddu'r refferendwm, fel y gallwch adolygu'r broses gyfan yn eich ardal bleidleisio, codi cwestiynau yn ei chylch, lle y bo angen, a sicrhau ei hansawdd.

3.27 Mae cyfrifoldebau rheoli ynghlwm wrth eich rôl. Er enghraifft, dylech wneud y canlynol:

- mynnu cael y staff a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr etholiadau'n drefnus
- sicrhau'r cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol o bob rhan o'ch awdurdod lleol eich hun
- goruchwylio'r broses o gynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg y refferendwm ac ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd o bleidleisiau blaenorol
- nodi a goruchwylio unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn lliniaru unrhyw faterion sy'n codi
- sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu priodolau
- cefnogi'r staff sy'n gweinyddu'r etholiadau a goruchwylio eu gwaith yn briodol
- cyfarwyddo staff, monitro cynnydd a chael adborth rheolaidd ar weithgareddau
- Cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol
- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol
- cynnal cydberthynas waith effeithiol â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu
- sicrhau bod cyfrifon y refferendwm yn cael eu cwblhau'n amserol

## Gwybodaeth reoli



### Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo y bydd pob Swyddog Cyfrif yn darparu gwybodaeth reoli benodedig i'r Prif Swyddog Cyfrif.

3.28 Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn casglu ychydig o wybodaeth reoli gan bob Swyddog Cyfrif er mwyn cael darlun clir o'r trefniadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith ledled y DU i gynnal y refferendwm. Mae'r wybodaeth reoli y bydd yn ofynnol i Swyddogion Cyfrif ei darparu, fel y cytunwyd gan Fwrdd Rheoli Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, fel a ganlyn:

- Cyfanswm y gorsafoedd pleidleisio
- Cyfanswm y staff gorsafoedd pleidleisio a dilysu a chyfrif
- Y dyddiadau y trefnwyd i gardiau pleidleisio gael eu hanfon at etholwyr
- Y dyddiadau y trefnwyd i becynnau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon at etholwyr i gyfeiriadau yn y DU
- Y dyddiadau y trefnwyd i becynnau pleidleisiau post gael eu hanfon i gyfeiriadau tramor a'r dyddiadau gwirioneddol
- Y lleoliad ar gyfer y broses dilysu a chyfrif a'r amseriadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r prosesau dilysu a chyfrif.

3.29 Bydd y wybodaeth hon nid yn unig yn helpu i roi cadarnhad i'r Prif Swyddog Cyfrif a'r Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol fod trefniadau ar waith ond bydd hefyd yn darparu ystadegau allweddol y gellir eu defnyddio gyda'r cyfryngau mewn modd adweithiol a rhagweithiol. .

## Rôl y Comisiwn Etholiadol

3.30 Mewn refferendwm a gynhelir o dan PPERA, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am y canlynol:

- Gwneud sylwadau ar eglurder geiriad cwestiwn y refferendwm.
- Cofrestru sefydliadau neu unigolion sydd am ymgyrchu yn y refferendwm.
- Ystyried a chymeradwyo ceisiadau am ddynodiad fel y grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y naill ganlyniad a'r llall yn y refferendwm.
- Talu grantiau i'r sefydliadau dynodedig cymeradwy.
- Monitro gwariant ar ymgyrch y refferendwm, yn unol â therfynau gwariant y refferendwm a osodwyd gan PPERA.
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar y rheolau i ymgyrchwyr.
- Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â rhoddion, benthyciadau a rheolaethau gwariant ymgyrchoedd.
- Cyflwyno adroddiad ar weinyddu'r refferendwm a gwariant ar ymgyrch y refferendwm

3.31 Bydd staff y Comisiwn Etholiadol hefyd yn helpu Cadeirydd y Comisiwn i gyflawni ei rôl fel y Prif Swyddog Cyfrif.



# Atodiad A – rhestr o gyfarwyddiadau

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [amserlen](#) gan ystyried cyfarwyddiadau'r Swyddog Cyfrif a'r dyddiadau cau statudol ar gyfer y refferendwm.

1	<b>Hysbysiad o refferendwm</b>	Rhaid i'r hysbysiad o refferendwm gael ei gyhoeddi ar ddyddiad i'w bennu gan y Prif Swyddog Cyfrif
2	<b>Papurau pleidleisio</b>	<p>Rhaid i'r papurau pleidleisio fod yn wyn; rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn binc</p> <p>Rhaid i rifau papurau pleidleisio gynnwys rhagddodiad sy'n cynnwys hyd at dri nod alffa a fydd yn cael eu pennu ar gyfer pob ardal bleidleisio</p> <p>Rhaid i bapurau pleidleisio gael eu paratoi ar y ffurf a bennir gan y Prif Swyddog Cyfrif</p> <p>Gan ystyried nifer yr etholwyr yn yr ardal bleidleisio, rhaid argraffu o leiaf 110% o gyfanswm nifer y papurau pleidleisiau a all fod eu hangen yn yr ardal bleidleisio; rhaid i 100% o gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a all fod eu hangen mewn gorsaf bleidleisio benodol gael ei ddyrannu i'r orsaf bleidleisio honno</p>
3	<b>Gorsafoedd pleidleisio</b>	<p>Wrth neilltuo etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio, rhaid, <b>o leiaf</b>, gydymffurfio â'r cymarebau fel y'u nodwyd yng nghanllawiau etholiadol y Comisiwn <b>ac</b> mewn unrhyw achos lle mae gan orsaf bleidleisio fwy na 2,000 o etholwyr wedi'u neilltuo iddi, rhaid i'r Swyddog Cyfrif geisio cytundeb gan ei Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ynglŷn â'i drefniadau yn yr orsaf bleidleisio honno, gan nodi sut mae'n bwriadu ei rheoli er mwyn sicrhau y gall pob etholwr a neilltuwyd iddi bleidleisio'n hawdd heb unrhyw oedi</p> <p>Rhaid peidio â darparu copïau o lyfryn gwybodaeth y Comisiwn mewn gorsafoedd pleidleisio</p>
4	<b>Dosbarthu cardiau pleidleisio</b>	Sicrhewch y caiff cardiau pleidleisio eu dosbarthu i etholwyr o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau o'r diwrnod ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm

<b>5</b>	<b>Dosbarthu papurau pleidleisio drwy'r post</b>	<p>Sicrhewch y caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n cael eu hanfon i gyfeiriadau dramor eu hanfon o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau o'r diwrnod sy'n bedwar diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm ac ni ddylent gael eu dosbarthu os cânt eu derbyn 28 diwrnod calendr cyn y bleidlais</p> <p>Sicrhewch y caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon at etholwyr i gyfeiriadau yn y DU o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau gyda'r diwrnod sy'n wyth diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm</p>
<b>6</b>	<b>Amseriad y cyfrif</b>	Sicrhewch y bydd y broses dilysu a chyfrif pleidleisiau yn dechrau am 10pm yn y DU ac 11pm yn Gibraltar
<b>7</b>	<b>Y dull o ddilysu a chyfrif</b>	Sicrhewch fod eich trefniadau dilysu a chyfrif wedi'u strwythuro fel y bydd modd rhannu'r broses dilysu a chyfrif yn nifer o 'ardaloedd' hunangynwysedig, llai o faint na'r ardal bleidleisio, gyda'r cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 'ardaloedd' hyn wedi'u cyfuno'n un cyfanswm i'r ardal bleidleisio; Rhaid peidio â dechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer unrhyw 'ardal' hunangynwysedig nes bod y broses ddilysu ar gyfer yr 'ardal' honno wedi cael ei chwblhau
<b>8</b>	<b>Monitro perfformiad Swyddogion Cyfrif</b>	Darparu gwybodaeth reoli benodedig i'r Prif Swyddog Cyfrif
<b>9</b>	<b>Archwiliadau'r Post Brenhinol</b>	Rhaid i Swyddogion Cyfrif wneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol am archwiliad ar gyfer eu hardal bleidleisio, yn seiliedig ar y cytundeb lefel gwasanaeth cenedlaethol
<b>10</b>	<b>Trwydded Ymateb Busnes Rhyngwladol</b>	Rhaid i Swyddogion Cyfrif wneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol am drwydded ymateb busnes rhyngwladol a sicrhau y caiff hon ei defnyddio ar bob amlen dychwelyd a roddir mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post i'w hanfon i gyfeiriadau dramor

- 
- <sup>i</sup> Para 7(5) o Atodlen 3 i Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
  - <sup>ii</sup> Para 3 o Atodlen 3 ac A11 o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
  - <sup>iii</sup> Para 7(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, rheolau 19, 46(9) a 49(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
  - <sup>iv</sup> Paragraff 8 o Atodlen 3 i Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
  - <sup>v</sup> A63 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Reol 16 o Atodlen 1 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
  - <sup>vi</sup> Para 9 o Atodlen 3 i Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
  - <sup>vii</sup> A63(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Reol 16 o Atodlen 1 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016